PATRWM GWAITH: Dydd Llun - Dydd Gwener, yn unol ag anghenion y gwasanaeth.

LLEOLIAD: Ysbyty Monnow Vale ond gall newid yn y dyfodol os oes angen i leoliad y gwasanaeth symud. Ni fyddwn yn talu costau symud neu anghyfleustra os yw hyn yn digwydd.

GWIRIAD GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD:

Bydd apwyntiad i'r rôl hon wedi ei eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac yn amodol ar y gwiriad canlynol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: (Nodwch lefel y gwiriad):

- Gwiriad o'r Rhestr Gwahardd Gweithio ag Oedolion

YN ATEBOL I: Jenny Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

ASESIAD O'R IAITH GYMRAEG:

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.....Pwy ydym ni?

Rydym yn weithlu hynod ymroddedig sydd yn ceisio gweithredu'r 'hyn sydd yn bwysig' gyda ffocws clir ar ganiatáu pobl i gyflawni eu hamcanion personol. Rydym yn wasanaeth integredig a'n partner allweddol yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

Rydym yn rhan o dîm amlddisgyblaethol mawr sydd wedi ein lleoli yn Ysbyty Monnow, sydd yn rhan o gyfarwyddiaeth mwy, sef Gwasanaethau Oedolion. Mae'r timau yn asesu, gofalu ac yn cefnogi cynllunio, ail-alluogi, rhyddhau o'r ysbyty a gwasanaeth penodol ar gyfer y sawl sydd wedi disgyn. Mae'r tîm yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Timau Gofal Uniongyrchol, Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion.

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.



Ein Diben:-

‘Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain.’

Bydd y deiliad swydd yn arwain datblygiadau, yn strategol a'n weithredol, o fewn y lleoliad, yn egluro a'n cydlynu rolau a chyfrifoldebau staff, er mwyn sicrhau bod yna linellau clir o gyfathrebu a bod fforymau yn eu lle er mwyn medru gwneud penderfyniadau effeithiol a phroffesiynol. Byddant yn cyfrannu at y rhwydwaith gofal cymdogaeth, a'n meddu ar berthynas allweddol gyda'r Meddyg sydd yn arwain gofal cynradd ar gyfer yr ardal rhwydwaith. Byddant hefyd yn cydweithio gyda phenaethiaid proffesiynol ar gyfer therapi, nyrsio a gofal cymdeithasol (gan gynnwys y Gwasanaethau Integredig sydd yn cael eu cynnig yng Ngharchardai Ei Fawrhydi ym Mrynbuga a Phrescoed) a gwasanaethau eraill ar draws gwasanaethau iechyd ac awdurdod lleol gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ac aciwt er mwyn sicrhau bod y cynlluniau datblygu strategol yn diwallu anghenion datblygol y rhwydwaith a'r blaenoriaethau sydd wedi eu hamlinellu yn y strategaethau lleol a chenedlaethol - Cynllun Term Canolig Integredig (IMTP), Gofal Iechyd Darbodus a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd y deiliad swydd yn darparu'r weledigaeth a'r arweinyddiaeth wrth weithredu'r agenda yma.

Cydberthnasau Allweddol:

- Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (ISPB) – Sir Fynwy
- Bwrdd Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent
- Grwp Cydlynu Gweithredol ar gyfer Eiddilwch (OCG)
- Rhydweithiau Gofal Cymdogaethau Sir Fynwy (NCN)
- Yr holl staff o fewn y tîm
- Defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr
- Rheolwyr gwasanaeth
- Penaethiaid proffesiynol therapi, nyrsio a gwasanaethau cymdeithasol, Meddygon Teulu
- Clinigwyr a rheolwyr ar gyfer pobl hŷn ac eiddil o fewn y fwrdeistref
- Rheolwyr allweddol cyffredinol, ariannol ac adnoddau dynol yn yr awdurdod lleol a BIPAB
- Timau Comisiynu
- Gwasanaethau iechyd meddwl yn BIPAB a CSF
- Arweinwyr cynllunio ar gyfer iechyd a ac awdurdodau lleol
- Grwpiau ffocws ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a Chyfeillion Monnow Vale
- Rheolwyr asiantaethau gwirfoddol lleol - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Canolfan Gymunedol Bridges
- Bwrdd Partneriaeth Carchardai (PPB)

PRIF GYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU

Rheoli ac Arwain

- Arwain y gwasanaethau integredig er mwyn datblygu a chyflawni'r amcanion sydd wedi eu hamlinellu mewn gyrwyr cenedlaethol a lleol. Yn sicrhau safonau uchel o broffesiynoldeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws yr holl wasanaethau, gan sicrhau bod y gweithgareddau yn gyson gyda busnes y Bwrdd Iechyd, Cyngor



Sir Fynwy a Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo gyda hyfforddi a mentora, cynllunio adnoddau, gosod safonau, rheoli perfformiad, datblygiad y tîm ac unigolion.

- Yn sicrhau bod amcanion y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Fynwy wedi eu cyfathrebu yn eglur i'r staff o fewn y timau,
 - Yn sicrhau bod yr holl wasanaethau integredig sydd yn cael darparu yn rhagweithiol drwy'r amser ac yn dylanwadu ar gynlluniau gweithredol BIPAB a CSF.
- Yn sicrhau bod Gwasanaethau Integredig yn darparu gwasanaeth sydd yn cyfateb i'r gymuned ehangach o fewn yr Ystâd Ddiogel yn unol ag Adran 11, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Datblygu ac ymrymuso unigolion o fewn y gwasanaeth integredig aml-asiantaeth er mwyn sicrhau diwylliant o welliant parhaus a bod modd sicrhau ardderchowgrwydd proffesiynol drwy safonau uchel ac arloesi.
- Darparu cyngor priodol a phroffesiynol, yn cytuno / adolygu eu hamcanion perfformiad a'n gweithio / adrodd i'r Pennaeth Therapi Galwedigaethol yn BIPAB er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y gweithlu proffesiynol.
- Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn CSF a Phennaeth Gwasanaeth Bwrdeistref Sir Fynwy BIPAB, Pennaeth Nyrsio ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Phenaethiaid Gwasanaeth eraill er mwyn sicrhau bod y gweithlu (gweithwyr cofrestredig a chymorth) yn cael eu rheoli a'u datblygu a bod cydymffurfiaeth gyda pholisïau / practis cyflogaeth y ddau fudiad.
- Yn sicrhau bod cydymffurfiaeth gyda goblygiadau statudol, gorfodol a chyfreithiol gan gynnwys cydymffurfiaeth gyda gofynion proffesiynol fel sydd wedi ei ddiffinio gan y cyrff proffesiynol priodol.
- Yn sicrhau bod gwasanaethau integredig yn darparu gwasanaeth sydd yn gost effeithiol ac yn annog adolygiad o rolau, cyfuniad cymysg o staff a modelau cyflenwi newydd er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posib o fewn yr adnoddau ar gael.
- Dechrau a datblygu gwasanaethau effeithiol sydd yn mynd i'r afael ag amcanion craidd fel sydd wedi ei gyfarwyddo gan y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig gan gynnwys; IMTP, NCN, Eiddilwch, OCG.
- Yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau gweithredol integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cyfrannu at ddatblygiad strategol cymunedau integredig a'r gwasanaethau eiddilwch gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol a rennir.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau cymunedol ac eiddilwch integredig sydd yn berthnasol i randdeiliaid, grwpiau sydd â diddordeb, partneriaid ac asiantaethau eraill.
 - Yn sicrhau a'n datblygu system argyfeirio eglur a llwybr i mewn ac o fewn y gwasanaeth i ddarparwyr gofal perthnasol ac yn monitro eu heffeithiolrwydd drwy'r fframwaith perfformiad a chanlyniadau.
- Yn sicrhau bod yna gytundebau a gweithdrefnau eglur rhwng gweithwyr yr Awdurdod Lleol, BIPAB a thrydydd sector o fewn y tîm er mwyn eu rheoli o fewn gwasanaeth aml-asiantaeth.
- Gweithio'n agos gyda'r ISPB, NCN a'n gweithredu fel cyfathrebwr gweithredol a strategol rhwng y staff o'r gwasanaethau awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol.
- Gweithio'n agos gyda'r PPB er mwyn datblygu'r gwasanaethau yng Ngharchardai Ei Fawrhydi ym Mrynbuga a Phrescoed yn unol gyda'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda'r Gwasanaeth Carchardai a'r Adran Iechyd ar y safle.
- Cefnogi a chyfrannu at ddatblygu'r wybodaeth, sydd yn ymwneud gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan ddal y wybodaeth mewn fformat sengl a hygyrch sydd



yn cael ei ddiweddarau'n gyson gan yr holl ddarparwyr gofal. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr gofal yn meddu ar drosolwg perthnasol o'r gofal sydd yn cael ei ddarparu gan y tîm i'r defnyddwyr gwasanaeth.

- Datblygu a hyrwyddo, mewn partneriaeth gyda'r Penaethiaid Porffeisynol a'r Rheolwyr o'r awdurdod lleol a'r BIPAB, gweithlu sydd yn effeithiol, brwdfrydig a chymwys er mwyn sicrhau safon uchel o ofal a'n cymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael gyda diffygion.
- Yn sicrhau strwythur ar gyfer rheoli eraill o fewn y gwasanaeth sydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfathrebu effeithiol a'n cydlynu'r fframwaith cyflenwi gwasanaeth cyfan.
- Datblygu a chynnal rhyngweithio gyda darparwyr gofal y tîm CRT ac arweinwyr gwasanaeth o fewn Gwent a'n cefnogi'r gwaith o gyflenwi a monitro model gofal ac eiddiliwch sydd yn gyson ac yn gydradd.
- Datblygu, ysgrifennu ac adrodd ar unrhyw brosiectau allweddol a meysydd datblygu sydd wedi eu cytuno, gan arwain ar newid prosesau fel sydd angen. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chyflwyno nodiadau briffio ac adroddiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig.
- Chwarae rhan yn cyfathrebu ac yn datblygu'r berthynas gyda grwpiau yn y gymuned sydd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn Sir Fynwy a Monnow Vale e.e. grwpiau ffocws defnyddwyr gwasanaeth (SUG), Cyfeillion Monnow Vale, Fforwm Pobl Dros 50, Canolfan Gymunedol Bridges.
- Cyfathrebu gyda'r grwpiau uchod am ddatblygiadau sydd yn effeithio ar newidiadau yn y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn Sir Fynwy / Gwent
- Arwain ar ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwasanaethau gofal integredig cymunedol effeithiol i'r OCG / ISPB / Pwyllgor Dethol Oedolion ac yn eu hysbysu gan ddarparu'r dystiolaeth a gyhoeddir.
- Gweithio ag awdurdodau lleol, BIPAB a rheolwyr darparwyr gwasanaeth gofal eraill er mwyn sicrhau bod rhyngweithio agos o fewn darpariaeth gofal lleol ac yn cynnal eglurder o ran llwybrau cleifion.
- Gweithredu amcanion craidd o agweddau gwahanol o'r mudiadau partneriaeth ac yn dehongli hyn i mewn i gynlluniau gweithredu sydd yn cwmpasu'r agenda gweithredu ehangach gan gynnwys fframwaith adrodd blynyddol Cyngor Sir Fynwy, cynlluniau gweithredu eiddiliwch, Rhwydweithiau Gofal Cymdogaethau, Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy a'r IMTP.
- Dadansoddi ac asesu gwybodaeth sy'n gwrthdaro, yn gwneud penderfyniadau sydd yn seiliedig ar grebwyll a'n meddwl yn gritigol er mwyn sicrhau'r canlyniadau priodol.

Gofal Cleifion / Defnyddwyr Gwasanaeth

- Rheoli'r cyfleuster cleifion ym Monnow Vale gan gymryd cyfrifoldeb ar gyfer gwasanaethau sydd yn cael eu darparu gan staff ym Monnow Vale gan gynnwys ward y cleifion, clinig cof, gwasanaethau dydd a gwasanaethau sydd yn y gymuned gan gynnwys Ail-alluogi, Gofal yn y Cartref, Nyrsio Dalgylch, Therapiau a Gwaith Cymdeithasol.
- Adnabod, arwain a datblygu cyfleoedd i wella'r profiad o dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer trigolion Sir Fynwy.
- Ailfodelu'r gwasanaethau fel sydd wedi eu hamlinellu gan angen, gyrwyr lleol a chenedlaethol gan gynnwys ehangu ac integreiddio rolau y timau aml-asiantaeth, aml-ddisgyblaethol ar draws gwasanaethau'r gymuned.
- Cyfrannu at ddatblygu, cyflenwi a pherfformiad yr IMTP cymunedol.



- Yn cyfrannu at strategaethau moderneiddio'r gwasanaeth a'r agendau gwella gwasanaeth / lleihau costau.
- Datblygu partneriaethau a pherthynas adeiladol gdya rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan ddylanwadu ar yr agena hyrwyddo newid.
- Cyfrannu at y rhaglen moderneiddio ehangach ar draws y proffesiwn er mwyn sicrhau bod gofal cymunedol a chynradd sydd yn datblygu yn unol ag egwyddorion iechyd darbodus er mwyn gwella'n barhaus ansawdd y gwasanaethau sydd yn ffocysu ar y person.
- Yn chwarae rôl arweiniol ar gyfer mentrau Cynnwys / Profiad y Cyhoedd a Chleifion ac yn ein cynrychioli ar fforymau ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a Llywodraeth Cymru
- Gweithio gydag arweinwyr gwasanaeth er mwyn priflifo prosesau cleifion / defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwella mynediad/profiad yn unol ag egwyddorion moderneiddio.
- Datblygu a'n gweithredu mecanwaith o fewn gwasanaethau cymunedol ar gyfer rhannu practis arloesol, safon uchel ac sydd yn seiliedig ar dystiolaeth.

Adnoddau Cyllidol a Ffisegol

- Yn sicrhau cydbwysedd ariannol a /neu wrth gefn o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb gan warantu bod unrhyw rhaglenni gwella costau a chynlluniau effeithlonrwydd yn cael eu gweithredu
- Bydd y deiliad swydd yn gyfrifol am am y defnydd, monitro a rheoli'n effeithiol y cyllidebau gweithredol o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb (Gofal Cymunedol CSF, GWICES CSF, Adran 33 Monnow Vale, nyrsio cymunedol ar draws Trefynwy, Brynbuga a'r Fenni, nyrsio cyflyrau cronig, Ocsigen, ffisiotherapyddion cymunedol ac Adran 33 Eiddiliwch). Bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethu, gosod y gyllideb a rheoli a chaffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Gorchmynion Seyfdlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y mudiad ac yn sicrhau llywodraethiant corfforaethol.
- Yn sicrhau systemau llywodraethiant cadarn (clinigol, cyllidol, staff, archwilio a gwybodaeth) a bod mesurau rheoli risg yn eu lle.
- Cyfrifoldeb dyddiol ar gyfer rheoli adnoddau ar draws gwasanaethau integredig, yn wgeithio'n agos gyda'r cyfrifwyr perthnasol.
- Yn cymeradwyo gwariant hyd at uchafswm yn unol gyda chyfarwyddiadau ariannol sefydlog y gwasanaeth integredig. Nid oes uchafswm ar gyfer CSF.
- Yn adrodd i'r SUFG a Chyfeillion Monnow Vale am unrhyw wariant o'r cronfeydd elusennol.
- Mae Monnow Vale yn Fenter Cyllid Preifat (PFI). Bydd y deiliad swydd yn ymwybodol o'r goblygiadau o bersbectif cyllidebol a gweithredol o'r prosesau sydd eu hangen ar gyfer gwaith / gwelliannau ac effaith byrdymor a hirdymor ar reoli cyllidebau. Bydd y deiliad swydd yn chwarae rhan weithgar mewn cyfarfodydd ac yn gwneud penderfyniadau am y gwaith sydd i'w wneud yn y cyfleuster.

Risg, Llywodraethiant ac Ansawdd

- Monitro a chynnal safonau uchel o ofal a'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu a'n cynnig datrysiadau arloesol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth.



- Yn sicrhau bod y gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu i'r holl staff wedi ei ffocysu o ran darpariaeth, gan wneud y defnydd gorau o'u sgiliau arbenigol a'u gwybodaeth drwy gydweithio gyda'r Penaethiaid Proffeisynol ar draws asainaethau ac yn unol gyda'r safonau ar gyfer cofrestr unigol.
- Yn arwain ac yn ysgogi'r timau proffeisynol ac unigolion o fewn y gwasanaeth er mwyn darparu gwasanaeth safon uchel sydd yn effeithlon, effeithiol ac yn seiliedig ar fframwaith llywodraethiant a pherfformiad cadarn.
- Yn cefnogi'r gwaith o gynnwys defnyddwyr a gofalwyr wrth fonitro gwasanaethau ac yn sicrhau bod y gwasanaethau yn ymateb i'w hanghenion.
- Cynnal archwiliad ac adrodd ar y canfyddiadau er mwyn llywio cynllunio, gwella'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu ac effeithiolrwydd y gost clinigol.
- Yn gyfrifol am reolaeth weithredol y gwasanaeth o ddydd i ddydd a datblygaidau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn unol gyda'r stratgaeth, adborth gwasanaeth / data. Bydd angen i'r deiliad swydd i daro cydbwysedd rhwng y gofynion ymatebol sydd yn rhan o gyflenwi gweithredol a'r gofynion strategol rhagweithiol ar gyfer gwella'r gwasanaeth.
- Yn sicrhau bod gofal a safonau o ansawdd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnal drwy fonitro'r gwasanaeth yn effeithiol.
- Yn gweithredu fel y swyddog cyswllt ar gyfer unrhyw gwynion sydd yn ymwneud gyda'r tîm ac yn gweithredu fel swyddog ymchwilio 'annibynnol' ar ran y y gweithdrefnau cwynion a phersonél ar gyfer gwasanaethau cyunedig eraill.
- Delio gyda chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chwynion proffeisynol yn sensitif gan osgoi gorfod eu hwuchgyfeirio os yn bosib, yn ymchwilio'r cwynion ac yn gweithredu unrhyw welliannau sydd angen, mewn cydweithrediad gyda'r pennaeth proffeisynol perthnasol.
- Rheoli'r gwaith o adrodd am ddigwyddiadau a damweiniau gan sicrhau eu bod yn cael eu hadrodd yn amserol a bod cynlluniau gweithredu priodol yn cael eu dyfeisio.
- Yn sicrhau bod cynlluniau iechyd a diogelwch priodol yn eu lle drwy gydweithredu gyda'r PFI e.e. gwacau mewn argyfwng, digwyddiadau sylweddol, nwy meddygol aayb
- Yn gyfrifol am sicrhau bod y Cofrestrau Risg yn cael eu cynnal, eu rheoli a'u hadrodd yn flynyddol neu fel sydd angen.
- Yn gweithredu'n gyfrifol wrth ystyried cydweithwyr, iechyd, diogelwch a lles eich hun a chydweithwyr gan ddilyn practis gweithio diogel a'n cydymffurfio gyda pholisïau iechyd a diogelwch BIPAB a'r awdurdod lleol; mae hyn yn cynnwys mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol.
- Datblygu, gweithredu a'n archwilio gwasanaethau integredig gan sicrhau bod practis ac ymyriadau o'r safon uchaf er mwyn sicrhau'r canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyfrannu at ddatblygyu a gweithredu fframwaith a fydd yn adlewyrchu dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau gwelliannau mewn llywodraethiant clinigol.
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso'r cynnydd ac adnabod unrhyw gamau cywiro neu briodol pan fydd llywodraethiant wedi ei gyfaddawdu.
- Cefnogi arweinwyr proffesiynol perthnasol i ddatblygu systemau i fonitro ansawdd ymarfer trwy archwilio a mesur risg, cwynion, meincnodi a sicrhau bod newidiadau i arferion yn cael eu cyflwyno a'u monitro lle bo'n briodol.
- Sicrhau bod systemau effeithiol yn cael eu defnyddio i wirio bod staff cofrestredig wedi'u cofrestru'n briodol i gyflawni eu rôl.



- Cyngori ac ymdrin â materion disgyblaeth, cymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer staff o fewn y gwasanaeth integredig yn unol â pholisi'r sefydliad a'r canllawiau proffesiynol perthnasol
- Sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer adolygu digwyddiadau clinigol ac anghlinigol, gan sicrhau bod staff yn hyderus i adrodd am ddigwyddiadau anffodus
- Hyrwyddo partneriaethau gwaith effeithiol gyda chyrff statudol ac anstatudol, cleifion a'r cyhoedd.
- Gweithredu fel cyngorydd ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad proffesiynol a materion HCPC
- Deall egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'n sicrhau bod y rhain yn cael eu mabwysiadu fel rhan o'r practis.

Rheoli Perfformiad

- Sicrhau bod amcanion gwasanaeth clir yn unol â chynllun busnes y gwasanaeth.
- Arwain yn weithredol wrth ddatblygu systemau rheoli gwybodaeth integredig.
- Sicrhau bod datganiadau ystadegol priodol yn cael eu llunio drwy systemau cronfa ddata a nodwyd i ddiwallu anghenion gwasanaethau, proffesiynau a rheolwyr sy'n gweithredu o fewn y tîm aml-asiantaeth.
- Arwain ar fonitro, adolygu a rheoli perfformiad y gwasanaeth yn rheolaidd, gan ddefnyddio data perfformiad i gychwyn datblygiadau gwasanaeth i gyflawni gwelliannau yn yr ardal leol a nodi modelau priodol ar gyfer darparu yn y dyfodol e.e. oedi wrth drosglwyddo gofal, hyd arhosiad, dangosfyrddau cymunedol ac ysbytai.
- Dangos bod safonau gofal yn cael eu gosod a'u hadolygu'n gyson a gwneud yr ISPB yn ymwybodol o unrhyw faterion neu bryderon arwyddocaol
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau statudol, deddfwriaeth a chanllawiau'r gwasanaeth iechyd wrth ddarparu gwasanaethau gan gynnwys llunio, gweithredu ac adolygu codau ymarfer a pholisïau lleol yn barhaus.
- Monitro'r gwasanaeth yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt a mentrau newydd ac adrodd yn ôl i'r ISPB / GASP.
- Darparu cyfathrebiadau ysgrifenedig eraill o ansawdd uchel ar ffurf adroddiadau, cynlluniau busnes a chanllawiau adrannol, cynlluniau busnes strategol yn ôl yr angen.
- Cadeirio a mynychu cyfarfodydd priodol mewn perthynas ag elfennau gweithredol a strategol y gwasanaeth i sicrhau ansawdd, achosi newid a hysbysu am gynnydd / rhwystrau ac ati.
- Cyfrannu at uwch dimau rheoli awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan perthnasol i sicrhau bod cysylltiadau partneriaeth presennol effeithiol yn cael eu cynnal a lle bo'n briodol bod syniadau newydd yn cael eu gwyntyllu.
- Bod yn ymwybodol o arloesedd ac arfer da wrth ddarparu gwasanaethau gan gynnwys gweithredu polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol yn unol â chyfarwyddyd arweinwyr gweithredol a phroffesiynol yn BIPAB a'r awdurdod lleol.



Adnoddau Dynol

- Yn rheoli a bod yn gyfrifol am sicrhau system effeithiol o reoli perfformiad, gan gynnwys gwerthuso a datblygiad personol, ar gyfer pob aelod o'ch staff chi a'r staff sydd yn gweithio iddynt hwy, gan gynnwys olyniaeth weithredol a chynllunio'r gweithlu.
- Sicrhau bod pob adroddiad uniongyrchol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoli dros faterion adnoddau dynol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.
- Gweithio gyda'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar draws y ddau sefydliad i sicrhau bod polisïau a phrosesau AD cadarn ar waith ym mhob maes cyfrifoldeb gweithredol.
- Sicrhau bod staff rhyngasiantaethol yn rheoli adnoddau dynol yn effeithiol gan sicrhau bod polisïau proffesiynol a rheoli llinell perthnasol yn cael eu dilyn bob amser yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau Cyngor Sir Fynwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan neu gyflogwyr perthnasol eraill.
- Arwain, ar y cyd â phenaethiaid proffesiynol, y broses effeithiol o recriwtio, dethol, sefydlu staff, hyfforddi, datblygu, blaenoriaethu llwyth gwaith, goruchwyllo proffesiynol, gwerthuso ac adolygu perfformiad staff cofrestredig yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i safonau a chanllawiau proffesiynol a'r gofynion fel yr amlinellwyd gan bob sefydliad.
- Awdurdodi pob math o absenoldeb gan gynnwys cynllunio swyddi, gwyliau blyneddol, amser i ffwrdd yn lle, absenoldeb hyblyg, absenoldeb riant, a chynnal cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith yn unol â gweithdrefnau sy'n berthnasol i staff o dan gyfrifoldeb gweithredol uniongyrchol deiliad y swydd. Cydgysylltu â Phenaethiaid Proffesiynol pan fydd y broses yn cyrraedd y camau ffurfiol.
- Cydlynu a chynhyrchu trefniadau cynllun hyfforddi mewn perthynas â DPP i sicrhau bod holl staff y tîm wedi darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwerthuso digonol iddynt sy'n bodloni gofynion hyfforddi statudol, gorfodol a chofrestredig.
- Gweithio'n agos gyda Phenaethiaid Proffesiynol i sicrhau y gellir monitro cymwyseddau ac anghenion datblygu, gallu ac ymddygiad a mynd i'r afael â hwy yn unol â strwythurau / safonau proffesiynol presennol.
- Hysbysu ISPB / OCG ar newidiadau arfaethedig i ofynion staffio.

Addysg a Hyfforddiant

- Cefnogi'r arweinwyr proffesiynol i ddatblygu a gwella sgiliau ymarferwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nodi anghenion hyfforddi, gan gysylltu â rheolwyr / swyddogion hyfforddi perthnasol ar draws sefydliadau. Cyfrannu at ddylunio, comisiynu a gweithredu addysg a hyfforddiant i gwrdd â gofynion y gwasanaeth ac anghenion cleifion / defnyddwyr gwasanaeth.
- Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod anghenion hyfforddiant ac addysg yn cael eu diwallu mewn perthynas â deddfwriaeth / deddfau newydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth y gwasanaeth.
- Sicrhau bod fframwaith cymhwysedd cadarn ar gyfer hyfforddi'r ystod o weithwyr cymorth sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol yn y gweithlu aml-asiantaeth, aml-ddisgyblaethol

Cyfathrebu



- Darparu arweiniad a chyfeiriad ar draws sefyllfaoedd lle mae angen cyfleu a gweithredu syniadau neu gysyniadau hynod gymhleth ar draws y sefydliad mewn iaith hawdd ei deall.
- Datblygu cydberthnasau gwaith agos â'r undebau llafur a chyrff proffesiynol i hwyluso cysylltiadau da â gweithwyr er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir i gyflawni ei dargedau ariannol ac amcanion busnes.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu lefel uchel i gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o bobl gan gynnwys; cyhoedd, cleifion, staff, arweinwyr gwasanaethau, gofal sylfaenol, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion ac ati
- Cyfathrebu'n effeithiol ac yn groyw mewn sefyllfaoedd heriol a chynhennus
- Cyflwyno cyflwyniadau mewn amrywiaeth o fforymau – proffesiynol, gweithredol a strategol – gan gyflwyno gwybodaeth sy'n llywio gwahanol agweddau ar y gwasanaeth, dadansoddi data ac effaith newid/gwelliant gwasanaeth.
- Cadw cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cadw cofnodion BIPAB a'r awdurdod lleol.

Defnyddio Sgiliau Dadansoddi a Chrebwyll

- Arfer barn sy'n cynnwys ffeithiau a ffigurau hynod gymhleth a sefyllfaoedd sy'n gofyn am ddadansoddi, dehongli a chymharu ystod o opsiynau.
- Dehongli data o ffynonellau amrywiol i fwydo i mewn i wasanaethau, darpariaeth a strategaeth.
- Ymarfer gwybodaeth arbenigol ar draws ystod o weithdrefnau ac arferion gwaith rheoli trwy wybodaeth ddamcaniaethol a phrofiad ymarferol.
- Dehongli data o ffynonellau amrywiol i fwydo i mewn i wasanaethau, darpariaeth a strategaeth.
- Dadansoddi ac asesu gwybodaeth sy'n gwrthdaro, gwneud penderfyniadau ar sail barn a meddwl yn feirniadol i sicrhau canlyniadau priodol.
- Cynllunio a blaenoriaethu eich gwaith eich hun i sicrhau cefnogaeth effeithiol i bob maes a chyflawni amcanion allweddol ar draws y gwasanaeth integredig cyfan.
- Monitro ac adolygu cynlluniau yn rheolaidd ac addasu ar gyfer newidiadau mewn angen lleol ac mewn ymateb i newidiadau mewn canllawiau polisi cenedlaethol.
- Cynorthwyo gydag arweinyddiaeth a noddi gwasanaethau cymunedol, prosiectau'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio yn unol â'r strategaethau a chynlluniau busnes.
- Cymryd cyfrifoldeb am effeithiolrwydd monitro gweithgarwch fel modd o adolygu gwasanaethau'n barhaus a'u gweithredu yn erbyn yr holl raglenni gwella.

Adnoddau Gwybodaeth

- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd lunio adroddiadau a chyflwyniadau cymhleth yn rheolaidd, a hynny'n seiliedig ar ystod o wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Ysgrifennu a chynrychioli adroddiadau i ystod eang o grwpiau gan gynnwys Uwch Dîm Rheoli Is-adrannol, Pwyllgor Dethol Oedolion, Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaeth, a Grwpiau Cenedlaethol / Llywodraeth, yn ôl yr angen.
- Cyfrannu at ddatblygu system TG a rennir ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'i rhoi ar waith

Ymchwil a Datblygu



- Bydd deiliad y swydd yn darparu archwiliadau ansoddol a meintiol i ISPB i werthuso effaith gwasanaethau cymunedol ac yn y wardiau ac ymchwil berthnasol i lywio gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol.
- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddatblygu polisi ac ailgynllunio gwasanaethau ac ystyried canlyniadau gwaith archwilio a/neu werthuso perthnasol ar bob agwedd ar y rôl.
- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau bod arloesedd ac arfer da yn cael eu lledaenu ar draws adrannau yn y ddau sefydliad i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd, cynyddu lledaeniad a chynaliadwyedd, gan osgoi dyblygu.
- Hyrwyddo ymchwil, annog a chynnwys staff wrth ddatblygu syniadau a dulliau newydd ar gyfer gwella'r gwasanaeth mewn cydweithrediad ag arweinwyr proffesiynol ar draws asiantaethau.
- Rhaid i ddeiliad y swydd sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddatblygiad proffesiynol ei hun, yn cymryd rhan weithredol yn ei werthusiad blynyddol ei hun a'i oruchwyliaeth reolaidd.

Rhyddid y Swydd

- Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am reolaeth weithredol o ddydd i ddydd o wasanaethau cymunedol oedolion ar draws Sir Fynwy gan gydbwyso'r angen am ddatblygiad gwasanaeth rhagweithiol ac arweinyddiaeth yn erbyn galw adweithiol cyfrifoldebau gweithredu a rhanddeiliaid.
- Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'n annibynnol, o dan arweiniad strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol eang a pholisïau sefydliadol a chanllawiau lleol a chenedlaethol penodol, gan gynghori ar sut y dylid dehongli a gweithredu'r rhain.
- Bydd angen i ddeiliad y swydd gymhathu a chrynhai dogfennau cymhleth, cymharu ffeithiau a dadansoddi data sefyllfaol o amrywiaeth o ffynonellau, datblygu opsiynau ac asesu risgiau a chyfluoedd i'r sefydliad a hwyluso'r gwaith o adeiladu consensws a gwneud penderfyniadau.

Ymdrech Gorfforol

- Mae gofyniad rheolaidd i deithio rhwng y GIG, Awdurdod Lleol a safleoedd eraill yn aml gydag amser cyfyngedig rhwng cyfarfodydd.
- Mae angen gwneud defnydd aml o offer gweledol fel sgrin ar gyfer y swydd hon am gyfnodau o hyd at 3 i 4 awr ar y tro er mwyn cynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau cymhleth i gefnogi gwneud penderfyniadau.

Ymdrech Feddyliol

- Bydd angen canolbwyntio'n ddwys ar amrywiaeth eang o faterion cymhleth trwy gydol y dydd. Yn aml bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd addasu i flaenoriaethau sy'n newid ac ail-ganolbwyntio ei waith ei hun ac eraill ar feysydd blaenoriaeth newydd a all fod angen gweithredu brys.
- Bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan mewn ac yn hwyluso cyfarfodydd sy'n gofyn am lefel uchel o ganolbwyntio ar ystod eang o bynciau, gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a chymysgedd o fynychwyr.

Ymdrech Emosiynol

- Bydd y rôl yn gofyn am gyd-drafod dyddiol ag uwch gynrychiolwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cyfarwyddwyr a rheolwyr mewn economi iechyd a gofal cymdeithasol o dan gyfyngiadau ariannol sy'n cwmparu materion sy'n cael effaith



sylweddol ar ansawdd a nifer y gwasanaethau, ymarfer heriol a phrosesau rheoli sefydledig.

- Bydd disgwyl hefyd i ddeilydd y swydd ymdrin yn gadarnhaol ac yn brydlon â phryderon a phroblemau personol staff, herio staff ar unrhyw ymddygiad amhriodol neu berfformiad gwael ac ymchwilio ac ymdrin â chwynion a Digwyddiadau Difrifol yn ôl yr angen.

Amodau Gweithio

- Mae'r angen i weithio mewn amodau gwaith annymunol neu beryglon yn brin.
- Amodau swyddfa ac adrannau clinigol

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:

Tryloywder: Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.

Tegwch: Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parchu'r llall.

Hyblygrwydd: Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.

Gwaith tîm: Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ymysgu yn y Gweithle ac mae disgwyl i'r holl weithwyr i gydymffurfio gyda hyn.

- **Y Gymraeg yn Ddymunol**

Gall fod angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant Cymraeg i staff a gyllidir gan y cyngor. Gweithredir hyn os yw'r angen yn codi am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd.

Os ydych chi angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Jenny Jenkins Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Ffôn: 07977817277

Dyddiad Cau: 5pm 23/05/2023



Rheolwr Tîm Gwasanaethau Integredig Manyleb Person

Addysg a Hyfforddiant Arbennig	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Cymhwyster proffesiynol craidd perthnasol a chofrestru fel nyrs gofrestredig, cymdeithasol gweithiwr, AHP	H	Ffurfl. Gais
Lefel Meistre neu brofiad cyfatebol o gymhwyster Rheoli	H	Ffurfl. Gais
Tystiolaeth o ddatblygiad proffeisynol a phersonol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad

Profiad	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Tystiolaeth o reoli, arwain a gwerthuso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a thimau	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Tystiolaeth o reoli ac arwain yn llwyddiannus gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth mentrau	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Tystiolaeth o reoli ac arwain timau amlddisgyblaethol, amlbroffesiyno gan ddod â staff at ei gilydd yn llwyddiannus ar draws ffiniau sefydliadol gwahanol gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Tystiolaeth o gysylltu a chydlynu perthnasol darparwyr gwasanaeth aml-asiantaeth i wella canlyniadau gwasanaeth	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Tystiolaeth o arwain newid a phrosiectau gyda chanlyniadau llwyddiannus	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Profiad a sgiliau o reoli cyllidebau wrth gyflawni targedau ariannol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Tystiolaeth o ymgysylltu'n weithredol â'r gwasanaeth defnyddwyr a gofalwyr wrth ddarparu gwasanaethau a chynllunio	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Profiad o weithredu o fewn a rheoli fframweithiau rheoli perfformiad	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Profiad o weithio mewn amgylchedd sefydliadau diogel	D	Ffurfl. Gais a Chyfweliad



Gwybodaeth	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Gwybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau a pholisïau sydd yn ymwneud gyda gwasanaethau iechyd a gofal cydmeithasol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Gwybodaeth, deallwriaeth ac ymroddiad at ddarparu 'ardderchowgrwydd' o ran gofal cwsmer	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau monitro perfformiad, mesurau ansawdd a threfniadau llywodraethu proffeisynol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Gwybodaeth, profiad a sgiliau o ran y broses archwilio	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Dealltwriaeth o ofal cymdeithasol, lleoliadau gofal cymunedol a phriodol.	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Ywbydidaeth o reoliadau a chanllawiau cyfrinachedd	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth o feini prawf iechyd a gofal cydmeithasol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Gwybodaeth dda o gyfle cyfartal a'n hyrwyddo practis gwrthwahanaiethu	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofynion cofrestru a phrosesayu o fewn CIW a HIW	H	

Sgiliau Personol	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
------------------	-----------------------	------------



Yn medru rheoli sefyllfaoedd cymhleth a negodi canlyniadau positif	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Yn medru rheoli tîm aml-ddisgybledig ac amlddisgyblaethol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Yn medru gweithio mewn amgylchedd sydd yn newid yn gyflym	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Yn medru gweithio o fewn terfynau amser	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Sgiliau rhifedd a dadansoddi er mwyn defnyddio data ansoddol a meintiol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Sgiliau rhyngbersonol ardderchog	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Sgiliau negodi a dylanwadu cryf ac effeithlon	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Y gallu i gyfathrebu gwybodaeth effeithiol yn gymhleth i amryw o randdeiliaid	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Sgiliau llafar, ysgrifenedig a chyflwyno effeithiol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Sgiliau cyfrifiadurol effeithiol ar gyfer llunio adroddiadau	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Y gallu i gynnal cofnodion cywrain	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Y gallu i flaenoriaethu a rheoli blaenoriaethau sydd yn newydd	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Y gallu i ddatrys problemau a blaenoriaethu o dan bwysau	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad



Rhinweddau Personol	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Yn medru arwain, ysbrydoli hyder mewn cydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth, staff a phartneriaid	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Yn medru gweithio mewn modd systematig a'n sicrhau canlyniadau	H	Cyfweliad Cyfweliad
Yn medru ysgogi eich hun	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Yn medru gweithred'n benderfynol	H	Cyfweliad
Yn medru gweithio o dan bwysau ac o fewn terfynau amser	H	Cyfweliad
Arloesol	H	Cyfweliad
Penderfynol		
Empathetig		

Arall	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Yn medru teithio'n annibynnol o fewn ardal ddaearyddol	H	Ffurfl. Gais a Chyfweliad
Y gallu i siarad Cymraeg	D	

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.	➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.	➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.	➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth	➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.	➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges	➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.	➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. ➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r	➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.	➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.



LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.	➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.	➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.	➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith.	➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.	➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.	➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.

